# Cenn@d

MEDI 13 2023 | YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* | RHIF 133


## Daeargryn Moroco

Gyda gofid y clywsom am y daeargryn yn Moroco rai dyddiau yn ôl, a chofiwn am y sefyllfa ddyngarol hon yn ein gweddïau. Mae modd ymateb yn ymarferol hefyd drwy gyfrannu arian. Mae DEC ar hyn o bryd yn adolygu'r sefyllfa, ond yn tynnu ein sylw at y ffaith fod y Groes Goch eisoes wedi sefydlu cronfa argyfwng: Morocco Earthquake Appeal, a bod modd cyfrannu at eu gwaith

Yn hwyr nos Wener, 8 Medi, fe drawodd daeargryn o faint 6.8 rannau o wlad Moroco, gyda'r uwchganolbwynt ym Mynyddoedd yr Atlas Uchel, tua 50 milltir i'r de o Marrakech. Dilynodd ôl-sioc, maint 4.9, ugain munud yn ddiweddarach. Mae'r awdurdodau lleol eisoes yn adrodd bod dros 2,000 o bobl wedi marw, a llawer mwy wedi cael eu hanafu. Mae miloedd wedi colli eu cartrefi a'u heiddo, gyda thoriadau i wasanaethau fel dŵr a thrydan. Mae'r niferoedd hyn yn debygol o godi eto yn y dyddiau nesaf wrth i effaith lawn y trychineb ddod yn amlwg.

Mae gweithwyr argyfwng y Groes Coch yn Moroco eisoes yn ymateb i'r daeargryn, yn cynnwys darparu cymorth cyntaf i'r rhai sydd wedi'u hanafu a chefnogaeth emosiynol i bobl mewn sioc.



### Pwyntiau gweddi

Mae'n debyg mai'r broblem fwyaf ar hyn o bryd yw gallu'r gwasanaethau brys i fynd i mewn ac allan o'r rhanbarth yr effeithir arno fwyaf. Mae ffyrdd yr ardal yn hynod gul – un ffordd i mewn ac un ffordd allan – a bydd y difrod i'r ffyrdd hynny yn rhwystr i'r gwasanaethau. Bydd yn rhaid cael tîm o arbenigwyr i dwrio yn y rwbel, a hynny mewn amgylchiadau anodd a heriol, er mwyn i'r cyflenwadau sylfaenol – yn offer, bwyd a diod – gyrraedd y rhai sydd mewn angen.

Gweddïwch am ddiogelwch pobl wrth iddyn nhw geisio ymdopi â'r argyfwng ac unrhyw ôl-gryniadau pellach. Gweddïwch dros y genedl – y bydd pobl yn gallu dod at ei gilydd a defnyddio'u hadnoddau, eu gwasanaethau brys a'r ysbytai mewn ffyrdd doeth ac mor effeithiol â phosib. Gweddïwch y bydd y gymuned ryngwladol yn ymateb yn hael ac yn sydyn gyda chymorth ariannol ac ymarferol. Gweddïwch hefyd dros y Cristnogion sy'n byw yno, y gallant fod yn oleuni ac yn halen i'r bobl o'u cwmpas.


Arglwydd, clyw ein gweddi dros bawb sydd wedi eu heffeithio gan y daeargryn diweddar ym Moroco. Bydded iddyn nhw deimlo dy freichiau cysurus di yn eu cwmpasu a'u cynnal yn y cyfnod heriol hwn. Gweddïwn y bydd cymorth yn eu cyrraedd yn fuan, er mwyn achub a thrin y rhai sy'n dal yn y rwbel. Gweddïwn dros y mudiadau dyngarol a fydd yn gweithio yn y rhanbarth – y byddant yn medru ymateb yn sydyn ac effeithiol, ac y bydd iddynt gael eu cadw'n ddiogel wrth weithio yn yr ardal. Gweddïwn hefyd dros bawb sy'n brwydro yn erbyn effeithiau trychinebau naturiol – bydded iddynt ddod o hyd i nerth a gobaith yn dy enw di. Yn wyneb y colledion a'r marwolaethau, gofynnwn iti gysuro a nerthu aelodau teuluoedd y rhai a fu farw. Yn enw Iesu, Amen.

## Cyhoeddi nifer o gyfrolau Cristnogol dros gyfnod yr haf

Fel rhan o fwrlwm Pabell yr Eglwysi yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd eleni gwelwyd cyhoeddi nifer o lyfrau Cristnogol newydd. Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn tynnu sylw at y cyfrolau unigol hynny, gan gyhoeddi adolygiadau ohonynt. Dyma grynodeb o'r hyn a ddigwyddodd felly yn y babell, gyda chyflwyniadau byr i'r cyfrolau.

### Cysuro'r Claf

Dyma gyfrol werthfawr a defnyddiol sy'n ymdrin â phwnc pwysig cysuro cleifion o safbwynt Cristnogol ac yn benodol ysbrydoledd yn yr ysbyty. Cafodd y ddarlith ei thraddodi'n wreiddiol fel Darlith Davies (Eglwys Bresbyteraidd Cymru) 2021. Bu'r awdur, y Parchedig Eric Jones, yn gaplan yn







John Tudno Williams, Dr John Williams ac Eric Jones yn lansio *Cysuro'r Claf*

(parhad ar y dudalen nesaf)


O'r byd a'r betws
Un gusan
**Tudalen 3**

Y Parch. Ddr Timothy Keller
(1950–2023)
**Tudalen 4**


Ffydd a Diwylliant
Chwyn
**Tudalen 7**


*Cyhoeddi nifer o gyfrolau Cristnogol dros gyfnod yr haf*
*(parhad o dudalen 1)*

Ysbyty Gwynedd am dros ddeng mlynedd ar hugain. Daeth tyrfa niferus ynghyd ar gyfer y cyfarfod lansio, a lywyddwyd gan y Parch. Ddr John Tudno Williams, gyda chyfraniad arbennig gan y meddyg o Lerpwl, Dr John Williams. Yn dilyn y lansiad trefnwyd lluniaeth yn y babell, gan gynnwys cacennau a manylion clawr y llyfr arnynt. Cyhoeddwyd y gyfrol gan Wasg y Bwthyn ac mae ar gael yn y siopau am £6.95.

### Ffenestri Gobaith

Cyfrol o farddoniaeth gan y bardd John Emyr o Gaerdydd yw'r gyfrol hon. Mae *Ffenestri Gobaith* yn tarddu o awen y bardd a'i argyhoeddiad Cristnogol. Bydd y casgliad o ddiddordeb i'r rhai sy'n mwynhau darllen barddoniaeth yn y mesurau caeth a rhydd, ac mae'n cynnwys cerddi coffa i nifer o bobl o Gymru a thu hwnt. Cafwyd cyfarfod hyfryd i lansio'r gyfrol, gan gynnwys cyfle i glywed y Prifardd Siôn Aled Owen yn darllen rhai o'r cerddi yn y gyfrol. Cyhoeddwyd y gyfrol gan Gyhoeddiadau'r Gair, ac mae ar gael yn y siopau am £7.99.




John Emyr gyda'i gyfrol *Ffenestri Gobaith*

### Lilïau Tân

Cyfrol gofiannol yw *Lilïau Tân*, addasiad o *Fire Lilies* gan Dr Rhiannon Lloyd, yn adrodd ei hanes yn gweithio mewn gwledydd megis Rwanda. Paratowyd yr addasiad Cymraeg gan Arfon Jones, a braf oedd cael cwmni'r ddau ohonynt yn y babell ar gyfer lansio'r gyfrol. Profiad gwefreiddiol oedd clywed Rhiannon yn rhannu rhai o'i phrofiadau yn gweithio yn Rwanda, a chafwyd gwerthfawrogiad o'i chyfraniad gan amryw a ddaeth ynghyd ar gyfer y lansio. Cyhoeddwyd y gyfrol gan Gyhoeddiadau'r Gair ac mae ar gael yn y siopau am £11.99.








Dr Rhiannon Lloyd ac Arfon Jones yn lansio *Lilïau Tân*

### Gwasanaethu'r Duw Byw

Cyhoeddwyd y gyfrol hon o waith Dafydd Andrew Jones, sy'n llawlyfr cynhwysfawr ar stiwardiaeth Gristnogol, yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Gan nad oedd yr awdur yn medru bod yn yr ŵyl eleni, trefnwyd cyfarfod arbennig i lansio'r gyfrol yng Nghapel y Crwys, Caerdydd, ddechrau Medi. Braf oedd croesawu cynulleidfa yno ar fore Sadwrn, gan gynnwys aelodau o deulu Dafydd. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch. Glyn Tudwal Jones, ac yn dilyn cyflwyniad gan yr awdur, cafwyd gair o werthfawrogiad gan Rheinallt Thomas. Cyhoeddwyd y gyfrol gan Gyhoeddiadau'r Gair ac mae ar gael yn y siopau am £9.99. Dyma gyfrol ddefosiynol sy'n ddelfrydol fel maes trafod i seiat neu ddosbarth ysgol Sul oedolion, sy'n cynnwys 15 o sesiynau ymarferol ar stiwardiaeth Gristnogol.






Aled Davies, Dafydd Andrew Jones, Glyn Tudwal Jones a Rheinallt Thomas yn lansio *Gwasanaethu'r Duw Byw*

# O'r byd a'r betws
## Un gusan



Credit Image: © Noe Llamas/Sport Press. Photo via Zuma Press/Alamy Live News Stock Photo - Alamy

Bu llawer o drafod dros yr wythnosau diwethaf am 'y gusan' a blannodd Luis Rubiales, llywydd Ffederasiwn Pêl-droed Sbaen, ar wefusau Jenni Hermoso, ar ddiwedd gêm derfynol Cwpan Pêl-droed Merched y Byd yn Ffrainc. Efallai iddo fod yn ddifeddwl ac yn anfwriadol ei amcan, ond bu i'r foment honno sbarduno storm hirdymor. Hawdd cytuno â Gareth Southgate, hyfforddwr tim pêl-droed dynion Lloegr, pan ddywed, 'Mae gan berson gyfrifoldeb sylweddol pan fydd yn wryw mewn safle arweinydd sy'n ymwneud â merched.' Mae hawliau merched yn greiddiol i hawliau pawb, ac ni ddylid dweud na gwneud dim a fyddai'n amharchus nac yn ddilornus o ferched mewn unrhyw sefyllfa.

Tybed oes gan y Taliban sy'n llywodraethu yn Afghanistan ar hyn o bryd unrhyw fodd i glywed barn y byd am gusan Rubiales? Gwaharddwyd merched rhag gweithio yn y wlad, ac fe'u gorfodir i wisgo gorchudd pen wrth fynd allan, a hynny dim ond mewn cwmni gwrywaidd. Nid oes modd i ferched weithio, derbyn addysg, heb sôn am fwynhau bywyd ar y cae chwarae. Roedd nifer o ferched Afghanistan wedi derbyn nawdd ariannol i dalu am eu haddysg dramor yn ddiweddar, ond ataliwyd hwy rhag gadael y wlad yn y maes awyr. Mae lle'r ferch yn y wlad yn amlwg yn israddol, ac maent yn cael eu trin mewn modd gwaradwyddus. Sut all trigolion gwledydd y farchnad rydd amgyffred dicter merched Afghanistan o'r anghyfiawnder dybryd sydd yn eu gwlad? Mae'n amhosibl i ni ddychmygu realiti eu sefyllfa.

Er mwyn casglu ychydig o ffeithiau am hanes merched yn Afghanistan, carwn annog darllenwyr *Cenn@d* i edrych ar wefannau megis un [Amnest Rhyngwladol] a gofyn a ydym yng ngwledydd Prydain yn arfer agweddau adeiladol a chadarnhaol neu fel arall. Mae'r ffoaduriaid a gafodd loches yng ngwledydd Prydain bellach yn dioddef annhegwch dybryd. Sawl un sy'n dal i fyw mewn ystafelloedd gwestai, hyd at deulu o chwech efallai mewn un ystafell, a heb ddarpariaeth resymol o fwyd a chynhaliaeth?


Mae'r drefn gynhaliol yn newid nawr, ac nid ydym yn effro i'r anghyfiawnder sydd yn digwydd oherwydd polisïau haearnaidd llywodraeth Llundain. A fyddai'r polisïau yn wahanol pe byddai'r Blaid Lafur mewn grym, neu unrhyw gyfuniad o bleidiau yn San Steffan?

Mae perygl mewn cyffredinoli unrhyw ddadleuon wrth drafod ffoaduriaid a hawliau merched, ond erys ein cyfrifoldeb Cristnogol ym mhob sefyllfa, boed law neu hindda. Bydd cwyno oherwydd bod gwestai fel Parc y Strade yn Llanelli yn cael eu defnyddio i gynnig lloches i ffoaduriaid, a gadewir i Suella Braverman fytheirio'n wengar yn erbyn estyn llaw agored i ffoaduriaid. Faint o groeso sydd yng ngwledydd Prydain go iawn?

Anodd peidio meddwl am emyn Gwilym Hiraethog sy'n denu'r canu argyhoeddedig â'r cwpled olaf: 'a chyfiawnder pur a heddwch / yn cusanu euog fyd' (*Caneuon Ffydd*, 205). Pe byddai pob eglwys a berthyn i'n henwadau yn anfon nodyn at yr Ysgrifennydd Cartref yn ystod mis Medi, tybed beth fyddai maint y cynhaeaf ym mis Hydref?

*Denzil John*

# Y Parch. Ddr Timothy Keller (1950–2023)



Rhyw dair wythnos yn ôl, a hynny drwy gyfrwng sianel YouTube, cefais gyfle i 'fynychu' cyfarfod coffa un o ffigyrau amlycaf Presbyteriaeth yn yr Unol Daleithiau, ac un a welodd yr Arglwydd yn bendithio'i weinidogaeth am naw mlynedd yn Virginia, a gweinidogaeth o dros 30 mlynedd yn Efrog Newydd. Ochr yn ochr â bugeilio a dysgu ei gynulleidfa, bu i amryw elwa o'i weinidogaeth yn ehangach drwy wrando ar ei bregethau ar sianel Reedemer Presbyterian, yn ogystal â darllen rhai o'r dwsinau o lyfrau a gyhoeddodd yn ystod ei weinidogaeth. O ran diddordeb, yn ystod ei gyfnod yn gwneud gradd Meistr yng Ngholeg Diwinyddol Gordon Conwell, un o athrawon pregethu'r coleg oedd y Cymro Gwyn Walters, â'i wraig, Mair, yno hefyd yn dysgu techneg llais.

Fel y gwyddoch, rwy'n gyndyn iawn i fynd ar awyren, ond, o fynd i Efrog Newydd dros 15 mlynedd yn ôl bellach, cefais i a Sarah y fraint o gael bod yn rhan o'i gynulleidfa o tua 4,000. Yn sicr, roedd bod yn yr oedfa yn gwneud ichi sylweddoli bod yr eglwys honno wedi ei thyfu i fod yn gynulleidfa lle'r oedd litwrgi ac emynau yn rhan hanfodol o'r cyfan, ac anodd anghofio'r pumawd llinynnol oedd yn cyfeilio tra oedd y blaenoriaid yn rhannu elfennau'r cymun.

Yng nghanol y cyfan yr oedd pregethu'r gair, ac yn ôl y deyrnged iddo yng nghylchgrawn y *New Yorker*: 'the sermons were wry and erudite, filled with literary allusions and philosophical references, and Keller was shrewd about urging his congregants to examine their "counterfeit gods" – their pursuit of totems like power, status, and wealth, which the city encouraged.'

Yr un modd, mae'r deyrnged yn y *Washington Post* yn tystio i'r modd yr oedd yn rhannu 'pointed, professorial messages – in person, on podcasts, on blogs and in print – in conversational tones that invoked C. S. Lewis, the philosophers Michel Foucault and Thomas Kuhn, the 18th-century Japanese poet Issa, and even Woody Allen.' Yn ei gofiant iddo, mae Colin Hansen yn disgrifio ehangder darllen Keller gan nodi, 'Having one hero would be derivative; having one hundred heroes means you've drunk deeply by scouring the world for the purest wells.'

Yng nghyd-destun yr Unol Daleithiau, dywed awdur teyrnged y *New York Times* ei fod wedi osgoi unrhyw symudiadau i gael llwyfan ar y teledu, ond, yn fwy na hynny, yn gwrthod cael ei uniaethu ag unrhyw 'safbwynt gwleidyddol'. Wrth ysgrifennu am hyn, mae Keller yn dweud, 'For Christians just to completely hook up with one party or another is really idolatry'. Roedd am sicrhau gweinidogaeth oedd yn cael ei diffinio nid gan ymrwymiad i blaid wleidyddol, boed geidwadol neu ryddfrydol, ond gan argyhoeddiadau diwinyddol. Iddo ef, yn wahanol i amryw o arweinwyr eraill, y mae'r rhan fwyaf o safbwyntiau gwleidyddol nid yn gymaint yn orchmynion Beiblaidd, ond yn ddoethineb ymarferol.

Wedi nodi hyn a rhag i'r darllenydd gael camargraff, prif ffocws ei weinidogaeth oedd Iesu. Un o'r podlediadau gorau i ddeall hyn yw cyfres gyfan y bu iddo, gyda'i gyfaill Ed Clowney, ei harwain ar ddarganfod a phregethu Iesu o'r holl Ysgrythur. Llyfr am Dduw, am Iesu, yw'r Beibl, nid llyfr amdanom ni. Y cwestiwn, felly, wrth ddod at unrhyw adran benodol yw: beth mae'r adran yma yn fy nysgu am Dduw, am Iesu? Canlyniad ac effaith dysgu hyn sydd wedyn i'w ddarganfod yn ymarweddiad a sancteiddhad y Cristion. Wrth fyfyrio ar hanfod gweinidogaeth Gristnogol, mae Keller yn dweud ei fod yn ymwybodol mai ychydig sydd wedi newid gyda golwg ar y peryglon, y maglau y medrwn gael ein dal ynddynt os nad ydym yn mynnu cadw Iesu, a dim ond Iesu yn y canol.

Yn ei lyfr *Centre Church* cyfeiria at un o ddywediadau honedig Terullian: 'Yn yr un modd ag y cafodd Iesu ei groeshoelio thwng dau leidr, felly y mae'r efengyl yn cael ei chroeshoelio rhwng y ddwy heresi yma.' Geiriau Keller am y ddwy heresi yw crefydd ac anghrefydd; yng ngeirfa arferol diwinyddiaeth, deddfoliaeth ac antinomiaeth, ac yn ein geirfa o ddydd i ddydd, moesoldeb neu berthynoliaeth. Gogoniant efengyl Iesu yw fod y ddau leidr yma'n cael eu carcharu, gan fod Iesu wedi cyflawni gofynion y ddeddf drosom yn gyfan gwbl, a'r un pryd wedi anfon ei Ysbryd i sicrhau calon newydd sy'n esgor ar ufudd-dod. Bydd unrhyw bregethu sy'n awgrymu, 'Rhaid iti gredu a byw yn iawn i fod yn gadwedig' ar y naill law, neu 'Mae Duw yn derbyn a charu pobl yn union fel ag y maent' ar y llaw arall yn sicrhau nad gogoniant yr efengyl yw ein ffocws.

O ran yr oedfa goffa, un o'r pethau fu'n fendith i mi oedd clywed yr emynau yr oedd Keller wedi eu dewis, ambell un yn gyfarwydd, ond dwy yn arbennig yn anghyfarwydd i mi. Mae'r emyn 'Jesus lives, and so shall I; / Death! thy sting is gone forever!' o waith yr Almaenwr Christian Gellert yn ddatganiad bendigedig o hyder y Cristion ym muddugoliaeth Iesu. Meddyliwch am ddechrau'r pennill olaf: 'Jesus lives, and death is now / but my entrance into glory'. O ran yr ail, tebyg fod: 'How firm a foundation, ye saints of the Lord, / is laid for your faith in His excellent Word', emyn sy'n fath o aralleiriad o Eseia 43, yn gyfarwydd i rai cynulleidfaoedd Saesneg. Wedi dweud hyn, does dim cyfieithiad Cymraeg, am a wn i, felly dyma fentro'r canlynol.

Holl seintiau yr Arglwydd, mae sylfaen eich ffydd
Mewn Gair sy'n ddiogel, i'ch cynnal bob dydd;
Beth mwy all ei ddweud na'r hyn dd'wedodd o'r blaen,
Wrth rai gafodd noddfa rhag pechod a staen.

Nac ofnwch, rwy'n aros yn gwmni i chi,
Yn barod fy nghymorth wrth fyned drwy'r lli;
Cewch nerth a phob nodded, cewch hyder yn stôr
Yng ngallu diderfyn llaw gadarn yr Iôr.

Pan elwir fy mhobl drwy ddyfnder y dŵr,
Yn afon eich galar, cewch wybod yn siŵr
Y byddaf yn gwmni, daw bendith i'ch rhan
A chwi a sancteiddir drwy ddyfroedd a thân.

Pan rodiwch drwy'r fflamau a gwres ffwrn y byd,
Fy ngras fydd yn ddigon i'ch cynnal o hyd;
Ni chaiff y ffwrneisi ond puro yr aur,
A llosgir y sorod i ffwrdd yn y pair.

Mae'r enaid sy'n gorffwys ar Iesu'n ddi-fraw,
Yn concro pob gelyn o loches fy llaw;
Cynllwynion, temtasiwn, holl nerthoedd y fall,
Nid ysgar fy mhobl o'm cariad di-ball.

*'K' yn [Rippon's Selection of Hymns](), 1787*

*Meirion Morris, Llandysul*

Gellir gwylio'r gwasanaeth coffa yma:
https://www.youtube.com/watch?v=XLLPVetu5Aw&ab_channel=RedeemerCitytoCity

# ‘Dringo’r ail fynydd: y dyfodol i eciwmeniaeth yng Nghymru?’ Darlith er cof am y Parch. J. Lloyd Jones

## gan y Parch. Siôn Brynach
## Prif Weithredwr Cytûn, Eglwysi ynghyd yng Nghymru

## Eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr
## nos Fercher, 9 Awst 2023

Annwyl gyfeillion, dewch ar daith yn ôl trwy amser gyda fi. Mae’n Fehefin 1989, mae’r haul yn tywynnu a’r awyr yn gynnes. Mae bywyd yn dda. Rydym yn eistedd ar wal y tu allan i dŷ wedi ei leoli yn Laura Place, Aberystwyth. Rydym yn aros i fyfyriwr arall ymddangos – myfyriwr sydd am ein helpu ni gyda golygu cylchgrawn sydd ar y gweill ’da ni.

Yn bwyllog ddigon mae ’na gar Alfa Romeo yn troi i mewn i Laura Place. Mae’r radio mlaen ond yr hyn sy’n syndod yw mai opera yw’r gerddoriaeth sy’n llifo allan drwy ffenestri agored y car. Mae’r car yn parcio ac allan o’r car mae ’na foi mewn dillad trwsiadus yn dod mas ac yn cerdded tuag atoch chi. Ai hwn ydi’r myfyriwr yr ydych chi’n aros amdano? Does bosib! Daw yn nes ac mae’n eich cyfarch, ‘Siôn?’ ‘Ie,’ ry’ch chi’n ateb. ‘Helô – Lloyd ydw i, Lloyd Jones!’ A dyna’r tro cyntaf i fi gwrdd â Lloyd. Fe wnaethon ni dreulio’r penwythnos yn selar y tŷ yn Laura Place yn gweithio ar gylchgrawn *Yr Efrydydd* a oedd yn cael ei gyhoeddi dan nawdd yr SCM – y Student Christian Movement – yr oeddwn i’n gwneud tipyn ag o ar y pryd yn genedlaethol yng Nghymru ond yn ehangach hefyd ar lefel Brydeinig.

Roedd hi’n siŵr o fod yn tynnu am chwarter canrif neu ragor cyn i lwybrau Lloyd a fi groesi eto – sy’n syndod mewn ffordd o ystyried natur y Gymru Gymraeg. Ond erbyn hynny roeddwn i’n gweithio i Ymddiriedolaeth y BBC ac wrthi’n cynnal digwyddiad estyn allan gyda chynulleidfaoedd yn Eifionydd a Llŷn. Roedd hi’n ganol prynhawn a ninnau ar ein ffordd ’nôl i’r Fali er mwyn dal yr awyren adref i Gaerdydd a gyda chwpwl o oriau yn sbâr fe wnaethom ni fel tîm alw i mewn yma – yn Eglwys Sant Beuno – gan ei bod hi’n un o ryfeddodau Cymru o’r canoloesoedd. Yno roedd Lloyd, a oedd erbyn hynny yn Rheithor Clynnog Fawr, ar fin cynnal gwasanaeth. Fe gawsom sgwrs hyfryd eto, gyda’r chwarter canrif a oedd wedi mynd heibio ers i ni weld ein gilydd megis dim! Person felly oedd Lloyd, o ’mhrofiad i – rhywun a oedd yn gwneud ffrindiau am oes, a oedd yn ymgorffori meithrin cysylltiadau a phontio rhwng y traddodiadau a‘r enwadau Cristnogol. A dyna pam, efallai, ei bod hi’n addas mai’r teitl a ddewisais ar gyfer sesiwn heno oedd: ‘Dringo’r ail fynydd: y dyfodol i eciwmeniaeth yng Nghymru?’, yn enwedig gan ’mod i’n deall gan Casi fod gan Lloyd hoffter neilltuol o fynyddoedd. A rhaid i mi ddweud ar y cychwyn fel hyn cymaint o fraint yw hi i gael traddodi’r ddarlith hon er cof am Lloyd. Felly, diolch yn fawr i Casi am y gwahoddiad ac i Rosie am fod ynglŷn â’r trefniadau ac am wneud y cyswllt cyntaf.

Ond beth mewn difri ydw i’n ei olygu gyda’r teitl hwn? Fel y gwyddoch, rwyf wedi bod yn swydd Prif Weithredwr Cytûn ers dechrau Ebrill – felly, rhyw bedwar mis – ac wrth feddwl am y ddarlith hon bu’n rhaid i fi benderfynu ar y ffiniau, sef beth i’w gynnwys a beth i’w hepgor. Ac wrth gwrs dyna natur eciwmeniaeth hefyd – gall fod yn hynod eang i rai ac yn eithriadol gyfyng i eraill. Felly, y casgliad y deuthum iddo yw mai’r deunydd y byddwn yn cyfeirio ato fyddai’r hyn sydd wedi croesi fy nesg ers i mi gychwyn yn y swydd. Hynny yw, y pethau yr wyf wedi eu clywed, y sgyrsiau yr wyf wedi eu cael a’r deunydd yr wyf wedi ei ddarllen ers ddechrau Ebrill. Gadewch i fi ddweud, felly, cyn mynd gam ymhellach y bydd rhai ohonoch chi sy’n eistedd o ’mlaen i cyn hir yn rhincian dannedd ac yn meddwl:



Siôn Brynach yng Nghlynnog gyda Casi Jones a Rosie Dymond

‘pam na fuasai fe wedi sôn am hyn neu’r llall?’ Fy ymateb i hynny fydd cytuno â chi a dweud yn blwmp ac yn blaen mai trosolwg chwim o’r maes a gawn ni heno, ac mai argraffiadau personol sydd yma hefyd, er mwyn cychwyn trafodaeth ehangach a’n cynorthwyo ni oll i ystyried pa ddyfodol sydd i eciwmeniaeth yng Nghymru, ac os oes ’na ddyfodol, beth fydd natur yr eciwmeniaeth honno. Yn y pen draw, aelod enwadau Cytûn, trwy’r ymddiriedolwyr y maent yn eu henwebu, sydd â’r cyfrifoldeb o osod cyfeiriad Cytûn at y dyfodol. Bydd angen gwneud hynny drwy ddeialog â’n harweinwyr eglwysig, ac i’r perwyl hwnnw rwyf wedi cynnull cyfarfod ar y cyd rhwng yr ymddiriedolwyr ac arweinyddion yr enwadau ym mis Hydref, ac rwy’n edrych ymlaen at weld ffrwyth y drafodaeth honno.

Ychydig flynyddoedd ar ôl i fi gwrdd â Lloyd, fe gychwynnais ar fy ngyrfa ym maes cyfathrebu – fel swyddog y wasg cyntaf erioed Plaid Cymru. Roedd y rheini’n ddyddiau cyffrous a hynod foddhaol, mae’n rhaid cyfaddef. Ond daeth yn amlwg o’r cychwyn yn deg fod ’na rai cwestiynau cwbl allweddol ym maes cyfathrebu. Y cwestiynau hynny yn Saesneg yw: ‘Who, what, why, when, where and how?’ – ‘Pwy, beth, pam, pryd, lle a sut?’ Os nad yw stori newyddion neu ddatganiad i’r wasg yn ateb y cwestiynau hynny, yna mae’n fethiant, ac mewn gwirionedd mae’r cwestiynau hyn yn allweddol i ni i gyd wrth ystyried y rhan fwyaf o sefyllfaoedd. I ni nawr, mae’n debyg mai ‘Pwy, beth a pham?’ yw’r cwestiynau allweddol. Os medrwn ni ddod o hyd i ateb i’r rheini, yna mae’r ‘Pryd, lle a sut?’ – ‘When, where and how?’ – yn dipyn haws i’w hateb.

Felly, gadewch i ni fynd ’nôl at yr hanfodion a holi pwy a beth yw Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, a pham ei fod yn bodoli, cyn ein bod ni’n troi at elfennau eraill ynghlwm â’r tri chwestiwn hyn.

(parhad ar y dudalen nesaf)

*'Dringo'r ail fynydd: y dyfodol i eciwmeniaeth yng Nghymru?'*
*Darlith er cof am y Parch. J. Lloyd Jones*
*gan y Parch. Siôn Brynach*
*Prif Weithredwr Cytûn, Eglwysi ynghyd yng Nghymru*
*(parhad o dudalen 5)*

Mae hanfodion unrhyw elusen i'w cael yn ei chyfansoddiad, a dywed cyfansoddiad Cytûn mai ei hanfod yw:

> uno mewn pererindod yr eglwysi hynny yng Nghymru sydd, gan gydnabod datguddiad Duw yng Nghrist, yn cyffesu mai ein Harglwydd Iesu Grist yw ein Duw a'n hiachawdwr yn unol â'r ysgrythurau; ac, mewn ufudd-dod i ewyllys Dduw ac yng ngrym yr Ysbryd Glân, yn ymrwymo eu hunain i geisio dyfnhau eu cymundod â Christ ac â'i gilydd yn yr Eglwys, sef corff Crist, ac i wireddu eu cenhadaeth i gyhoeddi'r Efengyl trwy dystiolaethu a gwasanaethu'r byd ar y cyd, er gogoniant i Dduw, Dad, Mab ac Ysbryd Glân.

Â'r cyfansoddiad yn ei flaen i ddweud bod Datganiad Cenhadaeth Cytûn fel a ganlyn:

1. Annog yr Eglwysi i dyfu yn yr undod a rydd ac a ewyllysia Crist ar gyfer ei Eglwys 'er mwyn i'r byd gredu'
2. Cadarnhau a dangos lle canolog addoliad a gweddi ym mhob tasg yr ymgymerir â hi
3. Galluogi'r eglwysi i wynebu ynghyd y materion sy'n eu rhannu er mwyn iddynt fedru tyfu i fod â dealltwriaeth lawnach o natur, pwrpas ac undod yn Eglwys Crist
4. Annog yr eglwysi i ymgymryd gyda'i gilydd fentrau ym meysydd efengylu a chenhadaeth
5. Galluogi'r eglwysi i ymateb gyda'i gilydd i anghenion o fewn y gymuned ddynol, yn yr ynysoedd hyn a thramor, trwy rannu'r adnoddau hynny a ddarperir gan Dduw
6. Galluogi'r eglwysi i gychwyn deialog gyda'r awdurdodau seciwlar a chrefyddau byd eraill ar faterion perthnasol
7. Cynorthwyo'r eglwysi i ddod i farn gyffredin a phenderfynu ar bethau ar y cyd
8. Parhau i gyflawni'r gweithredoedd hynny a ystyrir yn addas o safbwynt aelod eglwysi'r Elusen.

   Yn yr holl faterion hyn bydd yr Elusen yn canolbwyntio yn bennaf ar y materion cyhoeddus ac eglwysig sydd angen adnoddau ar y cyd, myfyrdod a gweithredu yr holl eglwysi, gan gadw mewn cof safbwyntiau Ewropeaidd a byd-eang.

Felly, a symud ymlaen at y cwestiwn nesaf – pam, dyma holi pam mae hyn yn bwysig? Er mwyn ateb y cwestiwn hwnnw fe hoffwn gyfeirio at ryw bump neu chwech o anerchiadau yr wyf wedi eu clywed dros y misoedd diwethaf. Traddodwyd pedair ohonynt yn ystod Cymanfa Gyffredinol CEC – y Conference of European Churches – a gynhaliwyd yn Tallinn, Estonia, 'nôl yng nghanol mis Mehefin.

Ond cyn gwneud hynny rwy'n credu ei bod hi'n werth i ni holi'r cwestiwn crafog, 'A yw hi'n werth yr ymdrech?' neu yn Saesneg, 'Why bother?' A dyw hwn ddim yn gwestiwn hollol dwp. Wedi'r cyfan, o edrych ar yr ystadegau o ran crefydd a chred yng nghyfrifiad 2021 gallech chi ddehongli'r sefyllfa fel un go dywyll. Fel y noda erthygl a ymddangosodd mewn sawl papur newydd ym mis Mai 2022, yn dyfynnu ffrwyth ymchwil Dr John Hayward, a oedd yn ei dro yn adeiladu ar sylfaen gwaith ystadegol hirdymor Peter Brierley, mae pethau ar y goriwaered go iawn.

Mewn nifer o erthyglau a ymddangosodd yn y wasg ym mis Mai 2022, defnyddiodd Hayward y cysyniad o'r rhif 'R' – a ddaeth yn hysbys i ni i gyd yng nghyd-destun lefelau heintio yn ystod pandemig Cofid-19. Fe gofiwch fod y rhif R hwn yn rhoi rhyw amcan i ni o gyflymder heintio yn ein cymunedau. Trwy ddefnyddio'r un cysyniad, daeth Hayward i'r casgliad y bydd nifer o'r enwadau traddodiadol yng Nghymru wedi diflannu o fewn yr ugain i ddeg mlynedd ar hugain nesaf. Roedd hyn, wrth gwrs, yn dod cyn cyhoeddi ffigurau cyfrifiad 2021, ond yr un oedd y stori yno hefyd, gyda'r ganran o'r boblogaeth a oedd yn galw eu hunain yn Gristnogion wedi gostwng o 57.6% yn 2011 i 43.6% yn 2021.

Wrth gwrs, rydym ni oll sy'n gwasanaethu o fewn gwahanol enwadau Cymru wedi gweld hyn i ryw raddau wrth i ni weld y niferoedd sy'n mynychu gwasanaethau yn gostwng a'r ffigurau'n lleihau, gydag oedran cyfartalog mynychwyr yn mynd yn hŷn ar y cyfan. Ond yr enwadau yn diflannu yn llwyr? Mae'n werth i chi edrych ar Fwletin Polisi Cytûn Pasg 2023 – sef ffrwyth myfyrdod ac ymchwil fy nghyd-weithiwr a'm cyfaill, y Parch. Gethin Rhys, swyddog Polisi Cytûn. Wrth drafod y ffigurau, dywed Gethin na ddylem mewn gwirionedd roi gormod o bwys ar y newid hwn yn y canrannau dros y degawd, gan fod 'ein profiad ni fel eglwysi yn dangos nad oedd llawer o'r 57.6% a atebodd felly yn 2011 yn ymlynu at arferion crefyddol Cristnogaeth, hyd yn oed yn achlysurol. Mynegiant o etifeddiaeth ddiwylliannol neu ymdeimlad o hunaniaeth oedd yr ateb i lawer; i eraill byddai'n dynodi efallai eu hawydd am gael angladd Gristnogol ar ddiwedd y daith.'

Mae Gethin yn nodi hefyd: 'Efallai i'r cyfle yn y Cyfrifiad hwn am y tro cyntaf i nodi'r ymdeimlad o genedligrwydd gyfrannu at golli rhai fu'n defnyddio'r blwch Cristnogol yn y ffordd honno yn y gorffennol.' Casgliad Gethin yw bod 'niferoedd 2021 yn fwy realistig nag o'r blaen o ran y niferoedd sydd ag ymlyniad ymarferol o ryw fath gyda chynulleidfa Gristnogol, neu awydd i ymwneud â Christnogaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol neu ddarllediadau crefyddol. Mae pob lle i gredu fod hyn yn wir eisoes am y crefyddau eraill a restrir.'

Noda Gethin hefyd fod yna gryn amrywiaeth o ardal i ardal, ac yn drydydd mae'n cyfeirio hefyd at ymchwil a gynhaliodd ac a gyhoeddodd y felin drafod Theos ar y rhai a nododd yn y Cyfrifiad nad oedd ganddynt grefydd. Mae'r ymchwil hwnnw gan Theos yn dangos yn fras fod modd dosrannu'r rhai a nododd nad oedd ganddynt grefydd yn dair carfan: y 'campaigning nones', y 'tolerant nones' a'r 'spiritual nones'; mae'r rhai olaf yma ymhlith y mwyaf diddorol gan eu bod yn aml yn dangos ystod o gredoau ac arferion ysbrydol, megis gweddïo, encilio, myfyrio ac ati. Dylid nodi hefyd i 6.3% fethu ateb y cwestiwn gwirfoddol hwn ynghylch ymlyniad crefyddol. Y gwir amdani – eto, fel y mae Gethin yn ei nodi – yw fod y 'Cyfrifiad yn erfyn defnyddiol o ran deall poblogaeth Cymru ... ond fe fydd y canlyniadau yn codi mwy o gwestiynau nag y byddant yn eu hateb!'

(*i'w barhau*)

Gellir darllen y ddarlith gyfan ar wefan Cytûn.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 17 Medi, am 7:30yb a 16:30yp**
Rhys Griffiths yn cyflwyno emynau gan C.Ô.R., Côr Caerdydd a Chantorion Creigiau

**Sul, 17 Medi, am 12yp**
Oedfa dan ofal Steffan Jones, Llanelli

# Ffydd a Diwylliant

## Chwyn

Un prynhawn, pan oeddwn ar fy ngwyliau yn yr Alban a'r wraig yn reffarïo gêm o *crazy golf* rhwng yr hogia yng nghyffiniau rhyw blasty bychan, es i i grwydro. Ar fy nghrwydr fe ddes i ar draws un o'r gerddi cysgodol yma, *walled garden*, gyda thŷ gwydr yn y gornel arferai fod yn grand.

Doedd y tywydd ddim yn berffaith. Roedd yna awel gref a'r dydd yn llwydaidd a thamp. Ond o agor hen ddôr wichlyd yn y wal roeddwn i mewn byd arall. Roedd hon yn hafan gysgodol, doedd dim awel groes ac fe'i gosodwyd i ddal y gorau o'r haul prin. Gallai rhywun deimlo'r gwahaniaeth yn yr hinsawdd.

O nghwmpas roedd yr ardd fel pìn mewn papur, pob blewyn yn ei le. Atgoffai fi o ardd ewyrth i mi y byddwn i'n taeru ei fod o'n torri'r lawnt gyda theclyn torri ewinedd. (Ar y lawnt honno y cyflwynodd o fi i'w fêt, yn gwbl ddiffuant, fel dafad ddu'r teulu!) Roedd rhywun yn teimlo bod pob bwlch ym mhob gwrychyn a phob tro ym mhob llwybr wedi ei drefnu fel bod golygfa arbennig yn eich wynebu. Roedd arwyddocâd y golygfeydd hynny wedi ei golli bellach, ond gallai rhywun werthfawrogi bod ymdrech wedi bod yn rhyw oes a bod rhywun yn dal i ymdrechu i gadw'r mieri rhag y mawredd.

Wrth adael, gellid gweld bod tamed o ffens fel sgert ar waelod y giât yn sgubo'r llawr. Ar ei thalcen caed arwydd yn siarsio pawb i'w chau hi'n dynn rhag bod cwningod yn cael mynediad.

Unwaith roedd y giât yn cau o'ch ôl gellid teimlo gwres y dydd yn gostwng radd neu ddwy; roedd pethau'n flerach ac oedd, roedd ôl y cwningod yn amlwg.


Roedd yr ardd, yn llythrennol, yn perthyn i'r oes o'r blaen.

Mor wahanol ydy hynny i ffasiynau garddwriaethol yr oes hon. Wna i ddim eich twyllo chi mai glynu at ryw egwyddor ffasiynol ydw i wrth gadw fy ngardd yn y cyflwr mae hi, na chodi dau fys ar fy ewythr cysetlyd. Ond o fewn canllath i'n cartref ni mae yna ddarnau glas preifat a chyhoeddus sydd wedi eu hau â blodau gwyllt a'u gadael i'w greddfau. Mae yna ymgyrchoedd 'no mow May' ac os yw'n bosib cedwir ymylon ffyrdd heb eu torri tan yr hydref. Nid ffasiwn yw hyn wrth gwrs ond rheidrwydd i achub a chynnal amrywiaeth ein byd.


Mae modd newid cymdeithas i ystyried chwyn yn flodau ac i weld blerwch fel delfryd, lle cynt mai dim ond trefn fyddai'n gwneud y tro. Bellach gallai 'mieri lle bu mawredd' fod yn arwyddair i'r Cyngor Cefn Gwlad.

Tybed sawl drws gwichlyd y gwyddon ni amdano sy'n cau ar ofod cysgodol a thaclus i'w ryfeddu, sy'n llawn o fanylion gogoneddus sydd wedi hen golli eu harwyddocâd? Pedair wal sy'n perthyn i oes o'r blaen y byddai'n dda gadael ambell i awel groes gario hadau chwyn i mewn iddyn nhw, ac efallai ambell gwningen neu hyd yn oed ddafad ddu! Mieri lle bu mawredd? Be amdani?

*Rocet Arwel Jones*



Llun gan Annie Spratt ar Unsplash






# Gwahoddiad i wledda: astudiaethau Beiblaidd i ferched ar Zoom

Ydych chi erioed wedi cael gwahoddiad i swper neu i fwyty, ac yn edrych ymlaen yn fawr at gael mynd yno gan eich bod yn gwybod bod bwyd anhygoel yn eich disgwyl?




Rhyw deimlad felly sydd gan y criw o ferched sy'n cwrdd yn rheolaidd ar nos Lun ar Zoom i astudio Gair Duw gyda'i gilydd. Dechreuon ni gwrdd yn ystod Covid, ac rydym yn dal wrthi, gan fod awydd mawr i barhau â'n cyfarfodydd. Rydym wedi cael sawl cyfres erbyn hyn: cawsom amser calonogol yn y Salmau, ein herio wrth edrych ar brofiadau rhai merched a gyfarfu ag Iesu, a'n harfogi wrth astudio Gweddi'r Arglwydd gyda'n gilydd.

Mae pob sesiwn yn dilyn yr un drefn, gydag amser i edrych ar y testun yn fanwl, amser i drafod a rhannu profiadau ac amser i ymateb trwy ganu cân o addoliad.

Bydd cyfres newydd, yn astudio llyfr y Diarhebion, yn cychwyn ar 25 Medi am 7 o'r gloch, ac wedyn bob yn ail wythnos tan y Nadolig. Ein gobaith yw cael ein bwydo, rhannu cymdeithas a dod i adnabod yr Arglwydd yn well. Os hoffech ymuno, yna mae croeso cynnes iawn yn eich disgwyl; cysylltwch ag Eirian Roberts am y ddolen Zoom: eirian.roberts@ebcpcw.cymru / 01678520065

# Llongyfarch Idris Davies yn y Waun, Gwernaffield

Bu dathlu yng nghapel bach Bethesda'r Waun, ger yr Wyddgrug, nos Sul, 11 Mehefin. Mewn oedfa gymun arbennig, llongyfarchwyd Mr Idris W. Davies, Arfryn, ar fod yn flaenor yn yr eglwys am saith deg mlynedd. Cafodd ei ordeinio yng ngwanwyn 1953 mewn cyfarfod o'r hen Henaduriaeth Fflint yng nghapel y Berthen, Licswm, yr un diwrnod â'r diweddar Mr Ron Parry. Mae Idris wedi blaenori yn yr eglwys yn y Waun yn ddi-dor a ffyddlon iawn ers hynny.

Roedd Idris wedi ei longyfarch eisoes ar Zoom gan y Gymdeithasfa ym Mae Colwyn ym mis Ebrill ac yn ei absenoldeb yn yr Henaduriaeth yng Nghapel y Groes, Wrecsam, ar 24 Mai. Oherwydd amgylchiadau, nid oedd modd i Idris fod yn bresennol yn yr oedfa yng nghapel bach y Waun, ond trwy garedigrwydd Mrs Nesta Ellis, Gorsedd, recordiwyd yr oedfa ar ffôn symudol. Da oedd cael ei chwmni hi a Gron yn y gwasanaeth.

Wedyn, aeth y gynulleidfa i fyny i Arfryn lle y cyflwynwyd y ddwy dystysgrif longyfarch hardd a roddwyd gan y Gymdeithasfa i Idris. Hefyd, cafodd gopi o hanes y capel wedi ei baratoi gan y gweinidog, Eirlys Gruffydd-Evans. Aeth Idris a'i briod, Enid, i ystafell dawel i dderbyn y cymun. Wedi mynd yn ôl i'r lolfa at y lleill gwelwyd bod Rhys, ŵyr Idris ac Enid, wedi llwyddo i drosglwyddo'r gwasanaeth o'r ffôn symudol fu yn y capel i'w ffôn yntau. Yna, fe roddwyd y gwasanaeth ar y teledu yn yr ystafell er mwyn i Idris ac Enid ei weld.



Rhoddwn ein llongyfarchion mwyaf gwresog a diffuant i Idris a diolch o galon iddo am ei waith mawr dros gynifer o flynyddoedd: 'Da was da a ffyddlon'. Dymunwn yn dda iddo eto yn y dyfydol. Boed Duw yn rhwydd iddo yntau a'i briod hoff.

*E. Gruffydd-Evans*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru